

Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2017

2017/38. Presennol: Cyngorwyr Swanson (yn y gadair), Goodman, Mason a B. Thomas; Cynghorydd Sir ap Gwyn, Mr David Anning (RSPB). Bu'r clerwr yn gweinyddu.

39. Ymddiheuriadau: Cyngorwyr Toland, Griffiths a Jenkins

40. Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod ar 13 Medi 2017.

41. Datganiadau o ddiddordeb:

Cynghorydd Thomas: palmant

42. Materion yn codi:

- i. Cafwyd esboniad o'r polisi llwybrau llesol. Nodwyd nad oedd gwybodaeth ar y gwariant o'r arian ychwanegol ar gyfer manau cul a byddai angen dilyn lan ar hyn ar ôl gosod y gyllideb.
- ii. Cafwyd esboniad o'r drwydded i feddiannu'r tir ar gyfer y lle chwarae gan Mr David Anning. Roedd y Cadeirydd wedi gweld drafft o'r brydles ac mae bellach wedi mynd yn ôl i gyfreithwyr y RSPB. Mae oedi wedi bod oherwydd bod asiantau tir y RSPB wedi bod yn delio â phrosiectau mawr. Esboniwyd bod y RSPB wedi cau rhan o'r lle chwarae i ffwrdd oherwydd bod yr onnen yna yn beryglus ac mae angen ei gwmpo. Adroddodd Mr Anning bod y Cadeirydd wedi arwyddo trwydded i feddiannu ond nid oedd yn glir ar ran pa sefydliad. O dan y drwydded y byddai'r sefydliad a ymrwymwyd gan y cytundeb yn gyfrifol am unrhyw waith ar goed ar y safle. Nodwyd nad oedd gan y Cadeirydd unrhyw bŵer i arwyddo cytundeb ar ran y Cyngor - byddai rhaid i'r Cyngor ei dderbyn. Fel arall, byddai'r cytundeb yn annilys. Cyn gwneud unrhyw benderfyniad i dderbyn cytundeb y byddai angen i gyfreithiwr y Cyngor ei wirio. Bydd angen rhaglen gwirio ar gyfer diogelwch coed ar y safle. Penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig i drafod y drwydded. Bydd Mr Anning yn anfon copi o'r drwydded i'r Cyngor. Bydd hefyd yn trefnu tocio'r llwyni ger Capel y Graig. Cytunwyd trefnu cyfarfod yn y gwanwyn gyda'r RPSB. Bydd y Cyngor yn anfon dyddiadau posib ar ôl y cyfarfod nesaf. Bydd Cynghorydd Swanson hefyd yn holi'r RSPB yn fuan am y tir ger Canoldy Cymru.
- iii. Nid oedd newyddion ar yr heol i'r orsaf.
- iv. Nid oedd ateb i'r ymholiad am gyfarfod safle gyda Cadw i drafod y maes parcio. Mae'n bosib bod cyswllt y Cyngor wedi gadael. Nodwyd bod y bws ailgylchu yn dod i'r maes parcio.
Pwynt gweithredu: Clerwr i gysylltu â Cadw eto.
- v. Adroddwyd bod hysbyseb wedi'i osod yn y Cambrian News am glwrwr newydd. Nodwyd bod Cyngor Ceulanamaesmawr hefyd yn ail-hysbysebu.
- vi. Trafodwyd y cyfarfod gyda Mr a Mrs Agnew. Nid yw'r Cyngor yn meddwl bod problem gyda gweld allan o'r lle parcio. Penderfynwyd ysgrifennu at Mr a Mrs Crawford i'w gwahodd i gyfarfod safle.
Pwynt gweithredu: Clerwr i drefnu cyfarfod safle.

43. Cyllid:

- i. Penderfynwyd ystyried cais am gymorth ariannol gan Nyrsys Marie Curie yn y cyfarfod ym mis Ionawr.

- ii. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol. Trafodwyd rhent y cae a phenderfynwyd peidio â'i gynyddu.
- iii. Nodwyd taliad o £150 gan Cadw
- iv. Cytunwyd talu £38 i SLCC

44. Gohebiaeth a Chyfathrebu:

- i. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Un Llais Cymru:
 - a) Derbyniwyd adroddiad blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Cymru.
 - b) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref: penderfynwyd y byddai'r cynghorwyr yn ateb yn unigol.
 - c) Derbyniwyd adroddiad Comisiwn Ffiniau Cymru.
 - d) Nodwyd Gwobrau Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru 2018.
- ii. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:
 - a) Ymgynghoriad ar Gynllun Lles Lleol BGC Ceredigion: nodwyd
 - b) Ymgynghoriad ar wastraff: bydd y cynghorwyr yn ateb i hyn
 - c) Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion: nodwyd
 - d) Adolygu'r CDLl a darparu Cynllun Newydd: nodwyd
- iii. Nodwyd arweiniad i brif gynghorau ar adolygu cymunedau
- iv. Nodwyd ymgynghoriad ar Fil yr Ombwdsmon Cyhoeddus
- v. Nodwyd gohebiaeth gan Wasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru am ei gynllun corfforaethol drafft.
- vi. Nodwyd cyfarfod cyffredinol Ecodyfi.
- vii. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda:
 - a) Holiadur cynllunio: Cynghorydd Swanson i ymateb.
 - b) Nodwyd cyfarfod ardal Ceredigion.
- viii. Clywyd llythyr gan Mr Robert Darby. Nid yw Mr Darby wedi clywed unrhyw beth pellach am ei gais cynllunio ar gyfer Maesnant. Nid oedd gan Gynghorydd ap Gwynn unrhyw wybodaeth bellach ond awgrymodd fod y pensaer yn trafod gyda'r Swyddog Cynllunio. Bydd Cynghorydd ap Gwynn yn cysylltu â'r Swyddog Cynllunio am ddiweddariad.
- ix. Awgrymwyd Rhiannon Lewis, Tan y Bryn, fel gohebydd Ysgubor y Coed ar gyfer Papur Pawb. Bydd Cynghorydd Swanson yn siarad â hi.
- x. Trafodwyd ymholiad Mr John Griffiths am y gadair a oedd yn arfer bod yn yr ysgol. Nid oedd gwybodaeth bellach gan aelodau o'r Cyngor ond bydd Cynghorydd Swanson yn holi Miss Hazel Jones, cyn-brif athrawes yr ysgol, amdani. Bydd y Clerc yn ysgrifennu i Bapur Pawb i holi am wybodaeth bellach

45. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 10 Ionawr 2018.